

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

27 Medi 2019  
Gwesty Llety Parc  
10.00 – 1.00

### Presennol:

Meri Huws (Is Lywydd)	Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Eleri Twynog Humphries	Hugh Thomas
Gwilym Dyfri Jones	Yr Arglwydd Aberdâr
Steve Williams	Iwan Davies
Richard Houdmont	Carl Williams
Mike Cavanagh	Quentin Howard

### Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr (dros dro) Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

### Staff eraill:

Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodion)
Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol

### Sylwebyddion:

David Moore	Cyngor Partneriaeth
Dr Nicky Guy	Dirprwy Gyfarwyddwr, CyMAAL
Aled Eurig	Adolygydd Teilwredig
Emyr Williams	Adolygydd Teilwredig
Efa Gruffudd Jones	Adolygydd Teilwredig
Lindi Lloyd	Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

#### 1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod yng ngwesty Llety Parc, gan nodi nad oedd yn bosibl ei gynnal yn y Llyfrgell oherwydd y gwaith adeiladu; yna cyfeiriodd Pedr at absenoldeb y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, oedd wedi'i drawo'n wael yr wythnos flaenorol. Adroddodd Pedr na fyddai Rhodri'n parhau gyda'i ddyletswydd fel Llywydd, ac anfonwyd dymuniadau gorau'r holl Ymddiriedolwyr ato am arferiad iechyd buan.

Mae'r Comisiynydd Apwyntiadau Cyhoeddus wedi cadarnhau penodi'r Is Lywydd presennol yn Gadeirydd y Bwrdd am gyfnod o dri mis tan 31 Rhagfyr 2019.

Rhannodd Pedr y newyddion trist am farwolaeth un aelod gwerthfawr o staff y Llyfrgell, sef , Meilyr Llwyd , yn frawychus o sydyn y Sadwrn blaenorol, ac yntau ond yn 43 mlwydd oed. Anfonwyd cydymdeimlad at Rheinallt a Mari, rhieni Mei. Gofynnwyd i'r aelodau sefyll fel arwydd o barch.

Estynnodd Hugh Thomas groeso i Meri Huws ar ran yr Ymddiriedolwyr, gan hefyd fynegi pob dymuniad da i Rhodri. Fe'i llongyfarchwyd ar ei hapwyntiad, gan sicrhau y byddai'n derbyn pob cymorth a chefnogaeth gan yr Ymddiriedolwyr. Ategwyd geiriau Hugh gan yr Arglwydd Aberdâr.

Diolchodd Meri i Hugh a'r Arglwydd Aberdâr, gan hefyd ddymuno'n dda i Rhodri; diolchodd yn arbennig i'r Tîm Gweithredol am y croeso arbennig, yn enwedig dros y bythefnos ddiwethaf wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Croesawodd Meri aelodau'r Panel ar gyfer yr Adolygiad Teilwredig, sef Aled Eurig, Efa Gruffudd Jones ac Emyr Williams i'r cyfarfod fel sylwebyddion, a hefyd Dr Nicola Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr CyMAAL. Estynnwyd croeso hefyd i'r Ymddiriedolwyr newydd, Carl Williams, Mike Cavanagh a Quentin Howard, i'w cyfarfod cyntaf.

## **1.2 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dyfrig Jones a Liz Siberry.

## **1.3 Datgan Buddiannau**

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd JTCT, aelod o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe ac yn Gadeirydd WHELF.

Datganodd Richard Houdmont fudd fel tiwtor cysylltiol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell yn Oriel Glan-yr-Afon.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## **1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 26 Ebrill a thrafod materion sy'n codi**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 19 Gorffennaf fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd yn amodol ar y cywiriadau canlynol;

- a) Mae angen ychwanegu enw Richard Houdmont i'r rhestr o rai oedd yn bresennol yn y cyfarfod.
- b) O dan 4.1 mae angen cywiro'r frawddeg yn ymwneud â'r Cyfrifon Blynnyddol 2018 – 2019 yn y cofnodion Saesneg i ddarllen "*the surplus is due to the Library receiving £250k*".

Cynigiwyd y cofnodion gan Hugh Thomas a'u heilio gan Iwan Davies.

### **Materion yn codi o'r cofnodion**

**Codiad cyflog** - diweddariad gan David Michael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno codiad cyflog gyda'u staff a'r undebau, fydd yn costio 2.1% iddynt. Y gost debygol i'r Llyfrgell fydd 3.8% neu £300k, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig tanategiant o £750 i'w staff - byddai hyn yn golygu fod 90% o staff y Llyfrgell yn gymwys i dderbyn y tanategiant. Gan fod disgwyl i'r Llyfrgell ddilyn patrwm Llywodraeth Cymru, mi fydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 11 Hydref, fydd yn argymhell gofyn am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w gynnwys yn y llinell sylfaen i gyllido codiad cyflog yn y Llyfrgell. Mae'r Llyfrgell yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am arian untro yn y gorffennol i ariannu codiadau cyflog, ond mae'n holl bwysig fod hwn yn cael ei gynnwys yn y llinell sylfaen o hyn ymlaen.

Nododd y Cadeirydd fod y mater yma, ynghyd â chostau pensiwn at y dyfodol, wedi ei drafod gyda'r Dirprwy Weinidog yn y cyfarfod a gafwyd yn y Llyfrgell y diwrnod blaenorol, ac roedd y Dirprwy Weinidog a Huw Davies, Pennaeth Cyllid, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, yn cydnabod yr heriau oedd yn wynebu'r Llyfrgell. Ychwanegodd Nicky Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr CyMAAL, ei bod hithau'n ymwybodol fod y Dirprwy Weinidog wedi cyflwyno achos ar ran y cyrff hyd braich a disgwylir y gyllideb ym mis Tachwedd.

**Adroddiad cynnydd codi arian** – manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i atgoffa'r Ymddiriedolwyr o gysylltu gydag ef gydag enwau unrhyw gysylltiadau sydd gyda nhw neu enwau ymddiriedolaethau/sefydliadau ac ati y medrir cysylltu â nhw parthed cyfleoedd codi arian.

**Gwerthusiadau blynnyddol yr Ymddiriedolwyr** - roedd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, wedi cwblhau'r rhan helaeth o'r gwerthusiadau, ond heb gael cyfle i gwblhau rhai Lee Yale-Helms, Steve Williams a Hugh Thomas. Mi fydd Meri a Carol yn ymgymryd â hyn dros yr wythnosau nesaf i sicrhau fod y broses yn cael ei chwblhau.

### **1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 26 Ebrill**

Cytunwyd i dynnu allan y cyfeiriad at ddarparu costau rhedeg Oriel Gelf Gyfoes.

Oherwydd y gwaith adeiladu sy'n mynd ymlaen a hyn o bryd, bydd taith o gwmpas y Llyfrgell yn cael ei drefnu yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

## **Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad**

### **2.1 Oriol Gelf Gyfoes**

Cyhoeddwyd dwy astudiaeth dichonoldeb yn 2018 parthed Oriol Gelf Gyfoes ar gyfer Cymru ac amgueddfa beldroed / chwaraeon cenedlaethol. Neilltuwyd £10m mewn arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gwblhau'r ddwy astudiaeth.

Adroddodd Nicky Guy fod y Cyngor Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru yn ceisio adnabod 6 - 8 safle ar draws Cymru, a byddai'n synhwyrol ystyried cael un yn Aberystwyth. Mae sawl safle o dan ystyriaeth, naill ai'n defnyddio gofodau presennol sydd eisoes yn addas ar gyfer cynlluniau indemniad y Llywodraeth, neu byddai'n medru cyrraedd y safon yma.

Cadarnhaodd mai'r cam cyntaf yw asesu gofynion y lleoliadau sydd wedi eu hadnabod a rhoddodd sicrwydd bod y Llyfrgell wedi ei adnabod fel un o'r lleoliadau posibl.

Mynegwyd pryder ynglŷn â chyfansoddiad y Grŵp Llywio, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Amgueddfa (fel y prif ddarparwr adnoddau), a chwestiynwyd pam nad oedd y Llyfrgell yn aelod o'r Grŵp. Mynegodd yr Arglwydd Aberdâr ei bryder ynghylch hyn. Nododd Nicky Guy ei bod wedi cwestiynu aelodaeth y Grŵp a bod Cyngor y Celfyddydau'n ail edrych ar y Cylch Gorchwyl. Cadarnhaodd yr Is Lywydd, Meri Huws, fod y Llyfrgell yn awyddus i chwarae rôl, ac wedi dweud hynny wrth y Dirprwy Weinidog yn y cyfarfod ddoe. Bydd Nicky Guy yn darparu rhagor o wybodaeth i Meri a Pedr ynghylch aelodaeth a rôl y Grŵp Llywio a sut y daethpwyd i'w sefydlu.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Ymddiriedolwyr fod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian sylweddol o rhwng £600 - £700k i ddatblygu ac uwchraddio Oriol Gregynog yn y Llyfrgell, a bod hyn yn gynllun cwbl ar wahân i unrhyw gynlluniau ar gyfer Oriol Gelf Gyfoes. Y gobaith yw paratoi manyleb a phenodi contractiwr i gychwyn ar y gwaith cynted ag y bo modd.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r Ymddiriedolwyr at y ffaith fod y llun enwog Salem gan Sydney Curnow Vosper ar restr arwerthiant Ben Rogers Jones, Caerdydd. Mae'r Llyfrgell, ynghyd â rhai cyrff eraill, wedi mynegi diddordeb yn y llun eiconig yma o bwys cenedlaethol, ac roedd Pedr yn awyddus i gael barn yr Ymddiriedolwyr os dylai'r Llyfrgell barhau i ddatgan diddordeb yn prynu'r llun, ac os byddai'r pris yn uwch na £60k, a fyddai'r Ymddiriedolwyr yn barod i ddigolledu'r Llyfrgell o'r cronfeydd preifat. Hefyd, petai sefydliad cenedlaethol arall a diddordeb, beth yw barn yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â chynnig yn eu herbyn?

Cadarnhaodd Nicky Guy fod gan yr Amgueddfa hefyd ddiddordeb yn y llun. Roedd yr Ymddiriedolwyr o'r farn y dylai'r llun aros yng Nghymru, ac y dylai'r Tîm Gweithredol barhau i gynnal trafodaethau gyda Ben Rogers Jones, ond nid oeddent yn awyddus i'r Llyfrgell

gynnig yn erbyn sefydliad cenedlaethol arall, mewn ocsiwn. Penderfynwyd dirprwyo'r cyfrifoldeb am negodi swm ychwanegol i'r Llywydd a'r Trysorydd petai'r angen yn codi.

## 2.2 Penodiadau i'r Bwrdd

**Mi wnaeth Iwan Davies a Richard Houdmont ymneilltuo o'r cyfarfod yn ystod yr eitem yma.**

Nodwyd fod cyfnodau 3 o'r Ymddiriedolwyr a benodir gan y Llyfrgell yn dod i ben yn ystod y ddeufis nesaf - Dyfrig Jones ar 31 Hydref, ag Iwan Davies a Richard Houdmont ar 30 Tachwedd.

Roedd y papur a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn pwysleisio'r pryder ynglŷn â'r diffyg amrywedd yn arbennig felly'r anghydbwysedd rhwng menywod a dynion ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a gofyn i'r Ymddiriedolwyr ystyried a ydynt 1) am gynnig ail dymor i'r Ymddiriedolwyr hynny sydd â'u tymor yn dod i ben neu 2) beidio â chynnig ail dymor iddynt a chynnal proses penodiadau a fyddai'n annog ymgeiswyr o blith cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd, gan gynnwys menywod. Cydnabuwyd cyfraniad y tri i weithgareddau'r Bwrdd dros y pedair blynedd diwethaf, a diolchwyd iddynt am wasanaeth clodwiw.

Cyn trafod ymhellach, nodwyd fod Dyfrig Jones wedi penderfynu ymddiswyddo ac na fyddai am ystyried ail dymor.

Nododd yr Is Llywydd fod cael balans cytbwys o ran cefndir, oedran a rhywedd yn holl bwysig, a bod cyfle nawr i geisio mynd i'r afael a hynny. Ategodd y Prif Weithredwr hyn gan annog yr Ymddiriedolwyr i ystyried o ddifrif rhedeg proses benodi newydd.

Cafwyd ymateb cymysg gan yr Ymddiriedolwyr, a gofynnwyd sut y byddai modd sicrhau mwy o amrywedd yn y broses nesaf, ac mewn ymateb, dywedwyd y byddai'r Llyfrgell yn targedu carfannau ac unigolion penodol, a'u hannog i ymgeisio. Mae Pedr hefyd wedi siarad â Phennaeth yr Uned Apwyntiadau Cyhoeddus, ac mae Julia Douch wedi cadarnhau bod pwll o bobl cymwys y gellir eu hystyried ar gael gan yr Uned a fu'n aflwyddiannus mewn ymgyrchoedd penodi diweddar ar gyfer byrddau cyrff eraill.

Nododd yr Ymddiriedolwyr yr angen i fod yn gyson gyda'r hyn a ddigwyddodd flwyddyn ddiwethaf, ble na adnewyddwyd cytundeb dau o benodiadau Llywodraeth Cymru. Byddai'n anodd iawn felly i'r Llyfrgell weithredu'n wahanol a chyfiawnhau hynny.

Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â cholli sgiliau a phrofiad yr aelodau presennol, ond rhoddwyd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr y byddai awdit sgiliau'n cael ei gynnal cyn cychwyn ar ymgyrch recriwtio.

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr a fyddai modd ymestyn cyfnodau'r ddau aelod sydd a'u tymhorau'n dirwyn i ben am gyfnod llai. Fel cyfaddawd, awgrymodd y Prif Weithredwr y gellir ystyried ymestyn y cyfnodau hyd nes bydd Ymddiriedolwyr newydd wedi eu penodi, ond y byddai hyn yn ddibynnol ar gael cydsyniad y ddau aelod. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr gyda'r awgrym yma, a chytunwyd hefyd y byddai unrhyw benodiadau newydd yn cael eu gwneud am gyfnod o bedair blynedd yn unig.

Ail ymunodd Iwan Davies a Richard Houdmont gyda'r cyfarfod yn dilyn toriad byr am seibiant.

### **Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Diolchodd yr Ymddiriedolwyr i'r Prif Weithredwr am ddarparu adroddiad cryno sy'n rhoi darlun cyflawn a chlir o weithgareddau strategol y Llyfrgell. Amlygwyd y materion canlynol;

#### **3.1 Ymestyn Allan**

##### **3.1.1 Llanrwst**

Gofynnwyd a oedd yr Eisteddfod yn Llanrwst wedi bod yn gyfle i recriwtio gwirfoddolwyr, a chafwyd ymateb nad oedd hynny yn ymarferol oherwydd yr angen i deithio i Aberystwyth. Serch hynny, llwyddwyd i ddenu rhai gwirfoddolwyr ar-lein.

Eleni, roedd gan y Llyfrgell bresenoldeb mewn uned ar wahân, gan hepgor ymuno â'r Lle Hanes. Ni fu unrhyw arbediad ariannol i'r Llyfrgell gyda'r trefniant yma, ond bu'n well cyfle i ymgysylltu a rhwydweithio nad oedd yn bosibl yn y Lle Hanes. Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol ar y stondin bob diwrnod a bu cyfle i groesawu'r Prif Weinidog a nifer o aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos. Er bod y Llyfrgell yn parhau i fod yn rhan o grŵp trafod Lle Hanes, mi fyddwn yn cynnal uned ar ein pen ein hunain eto flwyddyn nesaf yn Nhregaron.

##### **3.1.2 Ceredigion**

Ar gyfer yr Eisteddfod yn Nhregaron, mae bwriad cynnal gweithgareddau yn y Llyfrgell yn ogystal â chael presenoldeb ar y maes.

##### **3.1.4 Gŵyl y Gelli**

Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Tîm Gweithredol ystyried presenoldeb y Llyfrgell yng Ngŵyl y Gelli ac er nad yw'r trafodaethau hynny wedi cychwyn eto, mae Elizabeth Treasure, Is Ganghellor Prifysgol Aberystwyth wedi crybwyll sefydlu rhyw fath o is Gŵyl y Gelli yn Aberystwyth, gyda chydsyniad trefnwyr yr ŵyl wreiddiol.

### **3.3 Storio Asedau Digidol mewn Cwmwl**

Mae'r Llyfrgell Brydeinig wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda hyn ar ben eu hunain. Mi fydd y Llyfrgell yn cadw llygad ar y sefyllfa, ac yn adrodd yn ôl ar unrhyw ddatblygiadau pellach ar storio asedau digidol, sy'n ymwneud â deunydd adnau cyfreithiol electronig yn unig.

### **3.4 Archif Ddarlledu Genedlaethol**

Mae'r Llyfrgell yn aros am ganiatâd hawl i gychwyn y prosiect gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi gofynnodd swyddogion y Gronfa am fwy o wybodaeth, gan fod bwlch pwysig yn y dystiolaeth sydd wedi ei darparu iddynt. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach mewn sesiwn caeedig byr ar ddiwedd y cyfarfod agored.

### **3.5 Strategaeth Bobl a Chynllun Datblygu Staff**

#### **3.5.1 Denu, Penodi a Chadw Staff**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag oedd y Llyfrgell yn cadw cofnod o staff gydag anabledau, nodwyd nad oedd rheidrwydd ar staff i roi gwybod am unrhyw anabled oedd ganddynt. Cadarnhawyd, fodd bynnag, fod y nifer o staff gydag anabledau yn isel, ac yn llai na 10%

#### **3.5.2 Iechyd Meddwl**

Nodwyd fod 20 o staff yn mynychu cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl sydd i'w gynnal ym mis Tachwedd.

### **3.6 Gwaith ar yr Adeilad**

#### **3.6.1 Rhaglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Adeiladau**

Mae'r achos posibl yn erbyn Lucion a /neu Kaefer (yr ymgynghorydd a'r contractiwr gwreiddiol) yn parhau dan ystyriaeth. Mae'r cyfreithwyr yn ystyried cryfder y ddatl yn erbyn Lucion a/neu Kaefer. Mae'n debygol y bydd camau cyfreithiol yn cael eu dilyn ond yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr adferiad disgwylidig yn cyfiawnhau'r costau cyfreithiol a chostau eraill. Bydd ymgynghoriad gyda swyddogion y Bwrdd gan ofyn eu barn cyn cychwyn unrhyw gamau cyfreithiol.

Mae'r contractwyr ar y safle i ymgymryd â'r gwaith i adfer y gwaith maen sydd wedi dirywio yn sylweddol ac angen triniaeth ar fyrder. Mae'r gwaith yma yn ffurfio rhan o Amlen y Prif Adeilad, sydd wedi ei rannu'n dair rhan. Mae'r gwaith uchod yn ffurfio Adran 1 (Adain y De a'r Bloc Gweinyddu) a bydd wedi ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2020.

Mae'r Tîm Gweithredol yn naturiol yn pryderi am unrhyw waith poeth (hot works) ar y to neu unrhyw ran arall o'r adeilad rhag ofn ailadrodd y digwyddiad yn Ebrill 2013. Yn anffodus, bydd angen gweithredu gwaith poeth ar y to er mwyn cyflawni'r gwaith adfer ond mae Ymgynghorydd Tan Arbenigol wedi cynghori'r Llyfrgell ac mae o'r farn fod y risg yn cael ei rheoli yn foddhaol.

### **3.7 Creu Perthynas**

Roedd Richard Houdmont am fynegi ei ddiolch i'r Prif Weithredwr a'r staff am y croeso arbennig gafod rhai o'i ffrindiau yn ddiweddar, gyda'r canlyniad eu bod yn son am adael eu casgliad o luniau i'r Llyfrgell.

Adroddodd y Prif Weithredwr iddo gael cyfarfod buddiol yn ddiweddar gyda Phrif Weithredwr S4C ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo archif yr Awdurdod I'r Llyfrgell. Bydd y posibilrwydd hwn yn cael ei wyntyllu a'i ystyried gan y ddwy ochr yn ystod y misoedd nesaf yma.

### **3.8 Cynllun Gweithredu**

Mae'r tendr ar gyfer gofod dehongli yn y Prif Gyntedd wedi'l baratoi. Bydd y gwaith yn cychwyn unwaith y bydd y gwaith cynnal a chadw wedi'i gwblhau a'r gofod yn glir. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo £70k o gymynrodd Geoff Powell i wneud y gwaith yma.

### **3.9 Archif Genedlaethol Cymru**

Trafodwyd hyn gyda'r Dirprwy Weinidog yn y cyfarfod ddoe, a nodwyd fod ymgynghoriad yn mynd i gael ei gyhoeddi cyn hir gan Lywodraeth Cymru, gyda gwahanol opsiynau ar gyfer Archif Genedlaethol i Gymru. Roedd swyddogion y Llyfrgell wedi cael yr argraff nad oedd y mater yma'n flaenoriaeth gan y Gweinidog.

### **3.11 Strategaeth Ryngwladol**

Pwysleisiwyd nad oedd gan y Llyfrgell Strategaeth Ryngwladol, a nododd y Prif Weithredwr ei fwriad i ddrafftio strategaeth, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd; bydd drafft cychwynnol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, gan obeithio medru ei mabwysiadu yng nghyfarfod y Bwrdd yn Chwefror 2020. Nodwyd hefyd y byddai gwahoddiad yn cael ei estyn i Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, i ymweld â'r Llyfrgell.

## **Adran 4 Cofrestr Risg**

Cyflwynwyd y Gofrestr i'r Bwrdd gan Emyr Phillips, a nododd nad oedd unrhyw newid wedi bod i'r Gofrestr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Gorffennaf.



Nodwyd y canlynol i'w hystyried;

- Codi sgôr R4 - *Brexit, caled neu ddim cytundeb, yn bygwth cadwynau cyflenwi ar gyfer mewnfario bwyd, nwyddau a gwasanaethau.*

Mynegwyd pryder o ran yr angen i sicrhau bod cytundebau rhannu data gyda phartneriaid yn y UE mewn lle. Bydd y DU yn parhau i rannu data i Ewrop ond does dim sicrwydd y bydd Ewrop yn parhau i rannu data gyda'r DU. Nododd Nicky Guy fod cyrff hyd braich diwylliannol yn cyfarfod bob pythefnos i drafod materion o'r fath ac i fonitro'r sefyllfa.

## **Adran 5 Materion Ariannol**

### **5.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd Awst**

Cyflwynwyd y cyfrifon gan Emyr Phillips, a nododd fod amrywiant cadarnhaol o £10k yn erbyn cyllideb am y pum mis hyd at Awst 2019. Nododd David Michael fod y Llyfrgell wedi cyllido i or wario £257k, ac mi fydd costau ychwanegol pellach gyda'r cynnydd o tua £400k yng nghostau'r cynllun pensiwn, a chost codiad cyflog o £300k sy'n ddyledus o 1 Ebrill 2019, Byddai codiad cyflog tebyg yn 2020 yn ymrwymo'r Llyfrgell i gostau o tua £1m.

#### **Atodiad 8 – Cronfeydd Preifat**

Mae'r swm am y pum mis hyd at Awst 2019 yn edrych yn isel, oherwydd bod swm mawr wedi ei dderbyn yn y flwyddyn flaenorol, ond cadarnhawyd fod cymynrodd sylweddol i ddod cyn hir.

### **5.2 Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

Yn y Gwanwyn, cytunodd y Bwrdd ar gynllun ariannol tymor canolig, a gofynnwyd bryd hynny am adroddiadau cyson ar unrhyw newidiadau. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 11 Hydref, a bydd y Trysorydd yn diweddarau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod hynny ar 29 Tachwedd.

Y pryderon mwyaf yw costau cyflogau a chostau pensiwn, a hyd yma mae gorwariant o £250k. (gweler Atodiad 1 yn y Cyfrifon Rheoli). Mae £685k yn y cronfeydd cyhoeddus a bydd y Llyfrgell wedi gwario £300k o'r rhain erbyn mis Mawrth 2020. Os bydd y Llyfrgell yn parhau i wario ar yr un lefel, yna mi fydd y cronfeydd i lawr i £200k erbyn mis Medi 2020, sef yr isafswm posibl a ganiateir. Mae pwysau cynyddol felly i sicrhau cytundeb gyda Llywodraeth Cymru ar sut i ariannu codiadau cyflog at y dyfodol.

Mae David Michael yn aelod o grŵp y cyrff a noddur sy'n trafod cyflogau a pensiwn, ac maent yn casglu data ar hyn o bryd ynglŷn ag alinio'r rhain gyda thelerau ac amodau Llywodraeth Cymru. O ystyried fod cyflogau yn y Llyfrgell ar gyfartaledd yn 40% yn llai na Llywodraeth Cymru, mi allai hyn ychwanegu'n sylweddol at fil cyflog y Llyfrgell.

### **5.3 Adroddiad Codi Arian**

Mae cynllun cymynroddion wedi ei ail lansio a llythyron wedi eu hanfon at nifer o unigolion. Mae'r Prif Weithredwr yn dilyn y rhain i fyny gyda galwad ffôn a gwahoddiad personol i ymweld â'r Llyfrgell.

Mae'r Prif Weithredwr yn awyddus i gynnal adolygiad o union rôl y Cyfeillion yng nghydestun codi arian yn ystod y chwe mis nesaf, gan nad yw'r rôl yma wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol. Atgoffwyd yr Ymddiriedolwyr bod y Cyfeillion yn elusen ar wahân ac felly tu allan i sgôp cylch gorchwyl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae codi arian yn un o ddyletswyddau pwysig y Prif Weithredwr, ond dom ond tîm bach iawn sydd ar gael i weithredu hyn yn Llyfrgell. Mae'n bosib y bydd rhaid ystyried defnyddio ymgynghorwyr allanol a hefyd mynychu gweithdai ac ati sy'n cael eu trefnu gan e.e. yr Amgueddfa i ddysgu gwersi.

Gofynnwyd am y papur ar gost effeithiolrwydd penodi mwy o staff i weithio ar godi arian i'r Llyfrgell, a chydabu'r prif Weithredwr fod hyn wedi llithro, ond mi fydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Addawyd hefyd ystyried gosod "pop up" ar dudalennau'r wefan i annog pobl i roi arian, ac adroddwyd fod botwm o'r fath ar gael ar wefan y Bywgraffiadur Cymreig, a bod y Llyfrgell am arbrofi gyda hwnnw cyn ei ymestyn ymhellach.

Cafwyd cadarnhad hefyd fod cais wedi ei gyflwyno i gael cofrestru fel elusen Google a'n bod yn aros am gadarnhad ganddynt

### **5.4 "Prosiectau Mawr" : dewis cynlluniau ar gyfer y dyfodol i'w hariannu a'u cyflawni**

Mae'r Tîm Gweithredol wedi creu a gwerthuso nifer o "brosiectau mawr" y gellid eu cyflawni ar wahanol adegau. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu hystyried eto mewn cyfarfod arbennig o'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

## **Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau**

### **6.1 Cofnodion Drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 05.07.19**

Cyflwynwyd y rhain ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd ar 19.07.19 ac maent yn cael eu cynnwys heddiw er ffurfioldeb.

Derbyniwyd sicrwydd gan y Tîm Gweithredol fod y profion trydanol a nodwyd o dan 8.2 (Materion iechyd a diogelwch) bellach wedi eu cwblhau.

## **Adran 7 Unrhyw fater arall**

### **Staffio Prosiect yr Archif Ddarlledu**

Gofynnwyd a oedd bwriad ôl lenwi swyddi staff a benodwyd i swyddi gyda Phrosiect yr Archif Ddarlledu. Cadarnhawyd mai dyna'r bwriad a bod hyn yn un o'r amodau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru cyn cadarnhau'r cyllid o £1m tuag at y prosiect.

### **Pwyllgorau'r Bwrdd**

Anogwyd yr aelodau i ystyried ymuno gydag un o'r tri phwyllgor sefydlog, gan gysylltu gyda Chlerc y Bwrdd i nodi diddordeb.

### **Papurau'r Bwrdd**

Gofynnwyd a fyddai modd dosbarthu papurau cyfarfod nesaf y Bwrdd yn electronig, a chytunodd Clerc y Bwrdd i wneud hyn.

### **Sesiwn Hyfforddiant**

Mae'r sesiwn hyfforddiant ar y Cyfrifon Blynyddol oedd 'w chynnal yn dilyn cinio heddiw wedi ei gohirio ac mi fydd yn cael ei chynnal yn dilyn cyfarfod mis Tachwedd o'r Bwrdd.

**\*\* DIWEDD Y CYFARFOD \*\***